

DARLITH GOFFA HEDLEY GIBBARD 2016 TROI A THROSI: DATHLU 40 MLYNEDD

Diolch i chi, Madam Cadeirydd, am eich geiriau caredig a diolch i chi am ddod yma'r prynhawn 'ma i gyd-ddathlu cyfnod go faith ers sefydlu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Ga' i ddechrau drwy ddiolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi neu wedi noddi'r Gymdeithas dros y blynyddoedd, a diolch yn arbennig iawn hefyd i'r rheiny ohonoch chi sydd wedi bod yn aelodau ohoni, wedi cyfrannu iddi ac wedi'i chefnogi hi dros y deugain mlynedd diwethaf.

Teitl swyddogol y gyfres hon o ddarlithiau blynyddol yw Darlith Flynyddol Hedley Gibbard ac mae'n bleser arbennig cael croesawu Mair a Gwenan Gibbard i'n plith am fod hwn yn gyfle i ni gofio i ni nodi deg mlynedd ar hugain o oes y Gymdeithas yn ein cynhadledd ni yng Ngregynog a'r diweddard Barchedig Hedley Gibbard wedi gwneud ymdrech arwrol i ddod aton ni. Coffa da amdano – roedd yn ŵr arbennig iawn, a dweud y lleiaf. Yng ngeiriau gwraig a fu'n gwrando ar ei gyfieithu ar-y-pryd lawer tro, 'he was a Rolls-Royce of a translator'. A dyna, yn ei hanfod, fu nod y Gymdeithas ar hyd y blynyddoedd, sef cynhyrchu cynifer o Rolls-Royces o gyfieithwyr ag y gallen ni.

Fe ddewisais y teitl 'Troi a Throsi' am sawl rheswm. Yn gyntaf, wrth gwrs, mae gan y Gymraeg sawl gair am gyfieithu. Gallwch chi sôn am droi darn i'r Gymraeg, trosi darn i'r Saesneg a chyfieithu darn i'r Ffrangeg - tair berf sydd yn eu hanfod yn disgrifio'r un weithred. Fel y gwyyddon ni i gyd, mae gwahanol fathau o gyfieithu y gallwch chi ddefnyddio'r tair berf yna i'w disgrifio, sef cyfieithu rhyddiaith, cyfieithu rhyddiaith lenyddol, cyfieithu barddoniaeth a hefyd y math o gyfieithu sydd wedi bod yn ffon fara i rai ohonon ni am ddeugain mlynedd a rhagor, sef cyfieithu'r rhyddiaith ddi-sbonc honno a elwir yn ddogfennau swyddogol.

I ateb y galw yn sgil y pwysu a fu yn y 60au a'r 70au am gydnabod statws y Gymraeg fe welwyd bod angen penodi cyfieithwyr, gan gynnwys rhai a fyddai'n mynd ati maes o law i feistroli chwaer-greffft cyfieithu, sef cyfieithu ar y pryd. Ddeugain mlynedd yn ôl, felly, fe gynhaliwyd cyfarfod yn Aberystwyth ar 17 Hydref 1976 i sefydlu cymdeithas i gyfieithwyr Cymraeg- Saesneg ddod at ei gilydd i geisio cysoni eu harferion a chytuno ar dermau ac ati rhag drysu neb. Cysylltwyd ag amryw o gyfieithwyr ledled Cymru, nid bod cymaint a chymaint ohonyn nhw bryd hynny, a'u gwahodd i ddod i gyfarfod yn Aberystwyth i sefydlu cymdeithas ffurfiol. Am nad oedd gan y Swyddfa Gymreig ond tri chyfieithydd bryd hynny, cafodd ein pennaeth ni, y diweddard Moc Rogers, a'i ddirprwy, Mary Jones, fynd i'r cyfarfod gan adael y cyw bach melyn olaf – fi – yn y swyddfa i gynnal holl faich y gwaith am ddiwrnod cyfan.

Fore trannoeth, cefais wybod bod penderfyniad wedi'i wneud i sefydlu'r Gymdeithas, bod Moc wedi'i ethol yn gadeirydd cyntaf y Gymdeithas a Mary'n ysgrifennydd iddi.

Am rai blynyddoedd wedi hynny, bu'r Gymdeithas yn cynnal cynhadledd benwythnos bob blwyddyn, yng Ngregynog sawl gwaith ond hefyd ym Mhlas Tan-y-Bwlch o leiaf unwaith. Roedden nhw'n gynadledau braf ac yn gyfle i gyfieithwyr hen a newydd ddod i adnabod ein gilydd a hwyluso'r cysylltu rhyngon ni. A wireddwyd y weledigaeth ynghylch cytuno ar arferion cyfieithu a thermau ac ati? A bod yn hollol onest, naddo. Bu cyrff eraill fel Prifysgol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Addysg wrthi'n pennu termau ac ati a daeth gramadegwyr fel Peter Wynn Thomas a David Thorne i'n rhoi ni ar ben y ffordd. Erbyn heddiw, wrth gwrs, mae gennym mi ddulliau technoleg gwybodaeth i drin a thrafod materion o'r fath.

Hyd y cofia i, fu dim trafod ar gyfieithu fel proffesiwn yn y cynadledau hynny. Er ein bod ni'n sylweddoli bod byd cyfieithu mawr yn bod y tu allan i fyd cyfieithu Cymraeg-Saesneg, cymharol brin oedd yr ymdrechion i geisio cysylltu â'r byd mawr hwnnw. Mewn cynhadledd yng Ngregynog rywdro, rwy'n cofio tair sesiwn - bron i wyth awr o hyd i gyd - pan fu'r cyfieithydd Lana Castellano'n traethu ar gyfieithu ar eich liwt eich hun - maes eitha diarth i amryw ohonon ni ar y pryd.

Ymhen rhai blynyddoedd, fe ymddeolodd Moc Rogers o'r gadeiryddiaeth a ches i fy ethol yn ei le. Rhoes Mary Jones y gorau i fod yn ysgrifennydd, ac yn ei lle hi daeth bachgen nad oeddwn i'n nabod fawr arno, sef y diweddar Wil Petherbridge, brodor o Gaerdydd ac un a oedd wedi dysgu Cymraeg. Roedd wedi bod yn gyfieithydd o dan Gareth Morris ym Môn am gyfnod ond fe, erbyn hynny, oedd cyfieithydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Roedd gan Wil ei syniadau pendant ei hun ynghylch proffesiynoli'r Gymdeithas. Am ei fod e wedi sefyll arholiadau'r Institute of Linguists (yr IoL) a'r Institute of Translation and Interpreting (yr ITI), roedd yn awyddus iawn i weld ein Gymdeithas ni'n dilyn trywydd tebyg a phroffesiynoli byd cyfieithu Cymraeg-Saesneg.

Roedd gweithgarwch a dyfalbarhad Wil yn ddiarhebol. Nid yn unig y bu'n rhedeg cyfres o sesiynau bore Sadwrn ar gyfieithu gan wahodd rhai o aelodau'r Gymdeithas i fod yn diwtoriaid ar y cwrs, ond aeth ati i sefydlu trefn asesu i ymgeiswyr allu ymaelodi â'r Gymdeithas. Cododd hynny rai cwestiynau digon astrus. O gyfyngu aelodaeth o'r Gymdeithas i'r sawl a fyddai wedi llwyddo o dan y drefn newydd, go brin y byddai gennym ni fwy na llond llaw o aelodau, ac fe gollen ni bron y cyfan o'n haelodau mwy profiadol a gwerthfawr petaen ni'n gofyn iddyn nhw wynebu arholiad. Cwestiwn mwy dyrys byth oedd pwy fyddai'n marcio'u cyfieithiadau! A beth petai sawl un - neu bob un - ohonyn nhw'n methu?!

Gyda'i drylwyredd arferol, aeth Wil ati i holi cymdeithasau proffesiynol eraill a oedd wedi mynd drwy'r un broses. Eu barn unfrydol oedd derbyn pob aelod a oedd wedi talu'r tâl aelodaeth – dwybunt oedd y tâl ar y pryd, credwch neu beidio – yn aelod cyflawn, cyhoeddi y rhodden ni ddwy flynedd o ras i bawb arall a hoffai ymuno ac yna gau'r drws. I'r rhai a oedd o fewn y gorlan, aelodaeth "yn rhinwedd henaint" oedd ganddyn nhw i bob pwrpas.

Trefn deg? Wel, nac oedd, wrth reswm, ond dyna'r unig ffordd i ni allu cyfyngu aelodaeth o'r Gymdeithas o hynny ymlaen i'r sawl a fyddai wedi cyrraedd y safonau penodedig. Rhoddwyd dwy flynedd o rybudd ac yna fe gaewyd y drws.

Beth wedyn? Rhaid oedd sefydlu trefn asesu. Dilyn un yr Institute of Linguists a'r ITI wnaethon ni i raddau helaeth iawn. Sefydlwyd dau gategori, sef aelodaeth sylfaenol i gyfieithwyr cymharol ddibrofiad ac aelodaeth gyflawn i'r rhai a oedd wrthi'n cyfieithu'n amser-llawn ers tair blynedd a rhagor, a lluniwyd meini prawf priodol ar gyfer y naill gategori a'r llall. Gofynnwyd i ymgeiswyr gyflwyno enghreifftiau o'u gwaith, sef rhyw ddau ddarn 250 o eiriau o hyd, a threfnwyd i bump – ie, pump – o farcwyr, dau academydd a thri chyfieithydd proffesiynol, fwrw golwg drostyn nhw a dyfarnu ynghylch teilyngdod yr ymgeisydd.

Fu'r drefn honno'n llwyddiannus? Do a naddo. Do, am iddi sefydlu trefn asesu a anelai at fod yn un broffesiynol, ond naddo am mai prin oedd y ceisiadau! Doedd gan ddarpar ymgeiswyr fawr o syniad pa fath o ddarnau i'w hanfon at y marcwyr – na fawr o awydd chwaith i fynd i'r drafferth i chwilio amdanyn nhw. Cafwyd rhai ymgeiswyr, serch hynny, ond methu wnaeth y mwyafrif ohonyn nhw. Does dim llawer iawn wedi newid, felly.

Cwestiwn pellach oedd sut oedd cael sicrwydd mai gwaith yr ymgeisydd ei hun oedd y gwaith a gyflwynwyd. Yn y man, penderfynwyd cynnal arholiadau pwrpasol ond gan adael y drws yn agored i gyflwyniadau. Cau fu hanes y drws hwnnw hefyd ymhen tipyn, yn 2008, am fod nifer y ceisiadau mor fach.

Bu mireinio cyson ar ein trefniadau arholi ar hyd y blynyddoedd, ac fe gawn ni ryw ddeugain i hanner cant o ymgeiswyr bob blwyddyn. Erbyn hyn cewch chi ddau farciwr ac un i dorri unrhyw ddadl, a phrif arholwr i dorri unrhyw ddadl bellach.

Ydy arholi'n ffordd deg o farnu safon gwaith cyfieithydd ac a yw'n safonau ni'n rhy uchel? Does neb wedi llwyddo i sefydlu trefn arholi sy'n deg â phawb, er cymaint yr hoffen ni weld hynny. A beth bynnag yw profiad yr ymgeiswyr druan, rhaid dweud bod cyfarfodydd y marcwyr yn rhai difyr, yn enwedig os nad oes unfrydedd barn.

Ond i ni'r cyfieithwyr proffesiynol (neu ôl-broffesiynol erbyn hyn), mae angen i'n gwaith wrth gyfieithu fod cystal a chyn gywired â'r darnau gwreiddiol, nid bod y darnau hynny'n gampweithiau yn aml iawn, fel y gŵyr pob cyfieithydd o brofiad. Er i ni fel cymdeithas gael ein beirniadu weithiau am arddel safonau rhy uchel, mae'n marcwyr ni'n syndod o unfryd ynghylch teilyngdod neu ddiffyg teilyngdod sgriptiau'n hymgeiswyr.

Cwestiwn arall sydd wedi codi dros y blynyddoedd yw defnyddio cymhorthion cyfieithu yn ein harholiadau ni. Hoffwn ddiolch yma i staff Canolfan Bedwyr am y gwaith aruthrol y maen nhw wedi'i wneud dros y blynyddoedd, gwaith sydd wedi sicrhau bod rhaglenni fel Cysill ac ati ar gael yn y canolfannau arholi y byddwn ni'n eu defnyddio, a byddwn ni bob amser yn annog ein hymgeiswyr i'w defnyddio. Ond mater arall yw'r we, er cymaint y byddwn ni'n ei defnyddio wrth ein gwaith bob dydd. Petaen ni'n caniatáu defnyddio'r we, gallai ymgeisydd ddefnyddio rhaglenni cyfieithu cyfrifiadurol i'w helpu. Cwestiwn sy'n codi yw sut y gallen ni warantu bod y we ar gael ac yn gweithio yn ein canolfannau ar ddiwrnod y arholiad, a chwestiwn pellach yw ai arholiadau cyfieithu fydd gennym o hyn ymlaen, neu arholiadau sy'n gofyn i ymgeiswyr olygu a mireinio cyfieithiadau electronig gan raglenni fel Google Translate.

Ateb rhai sefydliadau eraill sy'n arholi cyfieithwyr, fel yr ITI, yw e-bostio'r darnau prawf at yr ymgeiswyr a gofyn iddyn nhw gyflwyno'u cyfieithiadau erbyn y pryd-a'r-pryd, sef ymhen ychydig ddyddiau fel rheol, a hynny fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae hynny'n mynd â ni'n ôl at gwestiwn gwirio mai gwaith gwreiddiol yr ymgeisydd yw'r cyfieithiad a gyflwynir, sef un o'n rhesymau dros droi at arholi cyfieithwyr yn y lle cyntaf! Trefn debyg i'n hun ni yw un y CIOL. Gwahanol oedd trefn y cwrs cyfieithu a redwyd ar y cyd dros rwy wyth dydd Sadwrn gan Brifysgolion Aberystwyth a Bangor. Er iddo gael ei hysbysebu fel 'safon aur', deuai o dan reoliadau'r Brifysgol gan olygu bod y marc pasio'n ddim ond deugain y cant, ymhell islaw'n marciau pasio ni. Serch hynny, aelodau o'r Gymdeithas fu'n rhedeg y cwrs ac aelodau eraill fu'n arholwyr allanol arno.

Wedi dweud hyn oll, rhaid nodi fy siom i ac eraill o weld bod y ganran o ymgeiswyr sy'n llwyddo yn ein harholiadau'n gymharol isel o hyd, sef rhyw ddeugain y cant wrth gyfieithu i'r Gymraeg a rhyw bump ar hugain y cant wrth gyfieithu i'r Saesneg. Mae sawl rheswm dros hynny, mae'n siŵr, gan gynnwys diffyg profiad yr ymgeiswyr a'u diffyg cynefindra â theithi naturiol y naill iaith a'r llall. Gobeithio y bydd cynllun y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o dan arweiniad Dr Mandi Morse yn gwella'r sefyllfa hon dros y blynyddoedd nesaf.

Rwy' wedi manylu rhywfaint ar arholiadau am eu bod nhw'n elfen greiddiol o waith o Gymdeithas. Wedi'r cyfan, llwyddo ynddyn nhw yw'r unig ffordd o gael dod yn aelod ohoni, a safon yr arholi sy'n dangos glir iaf ein hymlyniad ni wrth safonau uchaf y proffesiwn.

Ac arwydd o'n gwerthfawrogiad ni o'r holl waith a wnaeth Wil Petherbridge wrth sefydlu sylfeini'n trefn arholi oedd creu Gwobr Wil Petherbridge yn 2007 i'w chyflwyno i'r ymgeisydd a gyrhaeddodd safon arbennig o uchel yn arholiadau cyfieithu i'r Gymraeg Aelodaeth Sylfaenol mewn blwyddyn, a chynnal seremoni i gyflwyno'r wobwr honno i'r sawl sydd wedi'i hennill.

Ond yn ôl â ni at hanes y Gymdeithas. Cawsom ar ddeall maes o law y byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn fodlon ystyried cais am gyllid i gyflogi staff a rhedeg swyddfa. Cyflwynwyd cais i'r Bwrdd ac ymhen tipyn cawsom wybod i ni gael digon o grant i allu cyflogi swyddog datblygu rhan-amser a sefydlu swyddfa. Hysbysebwyd y swydd a chynhaliwyd cyfweiliadau. Er cystal yr ymgeiswyr eraill, roedd gan un ohonyn nhw gymwysterau diguro ym maes cyfieithu, a dyna sut y daeth Megan Hughes Tomos i weithio i'r Gymdeithas. Roedd amryw ohonon ni'n ei hadnabod hi'n barod, yn gwybod am hyfrydwch a chadernid ei phersonoliaeth ac yn sicr y rhoddai hi arweiniad pendant i'r cam newydd hwn yn hanes y Gymdeithas. Chawson ni mo'n siomi.

Ac wrth i ni ddechrau codi tâl aelodaeth uwch ar ein haelodau ac i'n grant gan Fwrdd yr Iaith gynyddu – ac fe hoffwn i ddiolch yma i'r Bwrdd a'u staff am eu cefnogaeth a'u cymorth ariannol i'r Gymdeithas ar hyd y blynyddoedd – fe ddaeth Megan yn swyddog datblygu amser-llawn, yn gyfarwyddwr ac yna, wedi i'r Gymdeithas ymfurfio'n gwmni, yn brif weithredwr. Sefydlwyd swyddfa'r Gymdeithas mewn tŷ gyferbyn â phrif adeilad y brifysgol ym Mangor, a dyna pam mai ym Mangor y mae swyddfa'r Gymdeithas hyd heddiw.

Fe osododd Megan waith y Gymdeithas ar sylfeini eithriadol o gadarn ac rwy'n hynod o ddiolchgar iddi am yr holl waith a wnaeth hi o dan amodau a oedd weithiau'n ddigon anodd. Fe fu hi'n ffodus iawn o ran y staff a ymunodd â hi dros y blynyddoedd, gan ddechrau gyda Judith Humphreys o Ganolfan Bedwyr. Un arall o gonglfeini'r Gymdeithas a ddaeth aton ni tua'r adeg honno oedd cyn-actores a ddaeth am gyfweiliad a chyfaddef ei bod hi wrth ei bodd yn ffeilio. Unwaith mewn oes y cewch chi lwc o'r fath! Fe benodwyd Nia Wyn Edwards (Jones, bellach) yn ddiymdroi a – gwyrth y gwyrthiau – mae hi'n dal gyda ni, yn frenhines yr arholiadau ac yn geidwad cyllid y Gymdeithas. Mewn sefydliad bach, credwch chi fi, mae rheolwr swyddfa mor ofalus a thrylwyr â Nia'n gaffaeliad amhrisiadwy. Serch ei bod hi'n mwyrdro'i phen â rygbi ac yn dianc ambell waith i ben draw'r byd i wyllo Cymru'n colli - sori, Cymru'n chwarae rygbi - yn erbyn Awstralia a Seland Newydd, mae

gennym ni feddwl y byd ohoni a hoffwn ddiolch iddi – am y canfed tro, mae'n rhaid – am ei holl waith.

Bu sawl un arall yn gweithio gyda ni am rai blynyddoedd – Melangell Tegid, Caren Efans, Anwen Owen a'r hynod Frau Doktor Judith Kaufmann – a hoffwn ddiolch o galon i bob un ohonyn nhw am eu gwaith a dweud yn gyhoeddus iddi fod yn bleser gweithio gyda phob un ohonyn nhw. Byddwn i'n arfer meddwl weithiau mor braf fyddai hi wedi bod arnon ni petaen ni wedi bod â digon o gyllid i'w cyflogi nhw i gyd yr un pryd. Byddem ni wedi bod â 'northern powerhouse' ymhell cyn i George Osborne ddechrau meddwl am y fath beth!

Aeth Megan a'i chriw ati i drefnu arholiadau'r Gymdeithas ar lefel fwy proffesiynol a dechrau sefydlu gweithdai i gyw-cyfieithwyr ac i gyfieithwyr a oedd eisoes mewn swydd. Gofynnwyd i amryw o'n cyfieithwyr mwyaf profiadol gynnal y gweithdai ac mae'r ddarpariaeth honno wedi bod yn rhan gyson o waith y Gymdeithas ar hyd y blynyddoedd. Yr hyn yr oedd ei angen, wrth reswm, oedd cwrs amser-llawn ar gyfieithu a hwnnw'n para blwyddyn o leiaf ac yn cynnwys elfen gref o brofiad gwaith. Gwaetha'r modd, doedd dim digon o fyfyrwyr nac o hyfforddwyr cymwys i ni allu sefydlu darpariaeth o'r fath.

Wrth i faes technoleg gwybodaeth gynyddu'n aruthrol – a bod yn fendith arbennig i gyfieithwyr – fe ddechreuon ni gynnal e-weithdai lle caiff ymgeiswyr ddarnau i'w cyfieithu a chais ar iddyn nhw anfon eu cyfieithiadau at aelod o banel marcwyr y Gymdeithas i gael sylwadau ar eu sgriptiau. Mewn gweithdy arferol, wrth gwrs, does dim posib rhoi sylw manwl i waith pob unigolyn, ond mae e-weithdy'n gyfle nid yn unig i bob unigolyn gael sylw go fanwl ond hefyd i'r sylwadau gael eu cofnodi a'u cadw'n electronig. Mantais e-weithdai dros arholiadau, i'r marciwr a'r cyfieithydd fel ei gilydd, yw bod modd i'r marciwr wneud mwy na chywiro camgymeriadau drwy awgrymu gwelliannau posibl, a bod modd hefyd i'r cyfieithydd a'r marciwr gyd-drafod ar y diwedd y pwyntiau sydd wedi'u codi.

Roedd y drefn arholi'n codi problem a oedd, i mi, beth bynnag, yn un annisgwyl, sef bod rhai'n credu na all corff proffesiynol gynnig hyfforddiant i ymgeiswyr ac yna'u harholi. Y broblem o'n safbwynt ni oedd bod cyn lleied ohonon ni'n ddigon profiadol i hyfforddi ac arholi. Wedi'r cyfan, diwydiant a phroffesiwn bach ac ifanc iawn oedd cyfieithu yng Nghymru bryd hynny. Pwynt arall oedd bod amryw ohonon ni wedi mentro i fyd cyfieithu am nad oedd arnon ni eisiau bod yn athrawon! Ond rwy'n credu i ni oresgyn llawer iawn ar y broblem 'hyfforddi ac arholi' drwy adolygu'r drefn yn 2011 a rhedeg gweithdai, e-weithdai ac arholiadau lle nad oedd yr unigolion a'u cynhaliai ddim yn ymwneud ag elfennau eraill o'r drefn. Cryn help oedd rhoi rhif i bob ymgeisydd yn ein harholiadau a

dilyn trefn lle byddai pob un yn defnyddio cyfrifiadur yn hytrach na llawysgrifen ac felly'n cynhyrchu sgrïpt na wyddai neb ond yr ymgeisydd (a staff y swyddfa) pwyl oedd ei hawdur.

Cyfieithu i'r Gymraeg oedd – ac yw – pwnc y mwyafrif llethol o'n gweithdai a'n he-weithdai, ond rôn i'n awyddus iawn i sicrhau bod rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei gynnig hefyd ynghylch cyfieithu i'r Saesneg. Er gwell, er gwaeth, ein cyfieithu ni i'r Saesneg fydd yn dangos i ddarlennwyr yng ngweddill y byd a ydyn ni'n feistri corn ar gyfieithu. Fyddai dyn ddim am weld na chlywed pobl yn dweud 'Mae'r cyfieithiadau yma i'r Saesneg yn sobor o wael – gobeithio bod y cyfieithiadau i'r Gymraeg dipyn gwell na hyn!'.

Y syndod i ni fel marcwyr yw safon gyffredinol isel ein hymgeiswyr sy'n cyfieithu i'r Saesneg. Fe gewch chi eithriadau, wrth reswm, ond byddai dyn yn disgwyl i ail iaith fwyaf y byd, ac un y cawn ein boddi ynddi'n gyson mewn cyfryngau o bob math, fagu yn ein cyfieithwyr ryw dipyn o glust at Saesneg graenus a naturiol, ond mae'n debyg nad felly y mae hi.

Mae hynny'n rhywfaint o syndod hefyd am mai cyfieithu i'r Saesneg y bydd y rhan fwyaf o lawer o gyfieithwyr ar-y-pryd yn ei wneud. A dyna faes arall y gwelai'r Gymdeithas fod angen cynnig hyfforddiant a phrofion ynddo. Dros y blynyddoedd, felly, bu'r Gymdeithas yn trefnu i gyfieithwyr-ar-y-pryd profiadol helpu i roi newydd-ddyfodiaid i'r maes ar ben y ffordd gan obeithio gallu meithrin digon arnynt, wedi iddyn nhw fagu cryn dipyn o brofiad ymarferol, i'w derbyn maes o law yn 'aelodau cyfieithu ar y pryd' o'r Gymdeithas.

Fe gyflawnodd Megan a'i chydweithwyr lawer mwy, wrth gwrs, na gweithredu a mireinio trefn arholi. Roedd pob math o weithgareddau eraill roedd gofyn i'r Gymdeithas eu cyflawni, rhai ohonyn nhw i fodloni gofynion grant Bwrdd yr Iaith a rhai eraill roedden ni'n dymuno'u cyflawni o'n pen a'n pastwn ein hunain. Un o'r datblygiadau mwyaf annisgwyl oedd y cyngor a gawson ni i droi'r Gymdeithas yn gwmni rhag i ryw anffawd ariannol droi pob aelod ohoni'n fethdalwr. Gan ein bod ni'n cael grant, gwell oedd sefydlu cwmni dielw yn 2003 i gyfyngu ar ddyledion yr aelodau pe deuai trybini. Golygodd hynny beth newid mewnol. Trodd Megan o fod yn Gyfarwyddwr y Gymdeithas i fod yn Brif Weithredwr arni ac fe drodd y Pwyllgor Llywio'n Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Ynghlwm wrth hynny, bu'n rhaid sicrhau bod gennym gyfansoddiad a rheolau sefydlog pwrpasol a chyflawni pob math o ddyletswyddau sy'n briodol i gwmni.

Cam arall a gymerwyd tua'r adeg honno oedd gwahodd y ddau wron, y Dr Bruce Griffiths a Mr Dafydd Glyn Jones, i fod yn ddau Lywydd er Anrhydedd ar y Gymdeithas i gydnabod eu camp aruthrol wrth olygu'r gyfrol ryfeddol *Geiriadur yr Academi*. Y syndod, efallai, yw mai'r Gymdeithas yw'r unig gorff sydd wedi'u hanrhydeddu nhw'n gyhoeddus yn y fath fodd.

A' i ddim i fanylu ar y baich gweinyddol a gyflawnwyd gan Megan a'i chriw, dim ond crybwyll pethau fel llunio'r Cynllun Corfforaethol a'r Astudiaeth Dichonoldeb a chreu cnewyllyn hanfodol y Strategaeth Gyfieithu Genedlaethol. Er bod t tri theitl yna'n codi rhyw arswyd arna i wrth edrych yn ôl, roedd pob un ohonyn nhw'n gam ymlaen (gobeithio!) at sicrhau statws a chydabyddiaeth i'r Gymdeithas a'i gweithgareddau, ac mae'n sicr iddyn nhw beri i Megan droi a throsi lawer gwaith yn ystod oriau'r nos. Ond drwy iddyn nhw ddangos i ni pa ffordd yr hoffai neu y gallai neu y dylai'r Gymdeithas symud yn ei blaen, roedden nhw'n fodd i ni gyfleu barn y Gymdeithas i'n noddwyr ym Mwrdd yr Iaith ac eraill. Drwy eu crybwyll yn ein bwletinau cyson, buon nhw hefyd yn gyfrwng i ni ddarbwyllio'n haelodau ein bod yn lleisio'u dyheadau a'u gobeithion nhw.

Mater a gododd ei ben sawl tro oedd rheoleiddio – gair nad oes neb wedi'i ddiffinio'n iawn yng nghyd-destun cyfieithu. Ym myd y proffesiynau, mae cyfieithu'n un o'r dyrnaid bach nad oes dim rheoleiddio – yn yr ystyr gonfensiynol – arnyn nhw. Caiff unrhyw Dwm, Dic a Harri, neu Catrin, Heledd ac Angharad, alw'i hun yn gyfieithydd a does 'na neb na dim all rwystro hynny. Dyna'r drefn ar hyd a lled y byd, mae'n debyg, er bod ambell wlad wedi ceisio corlannu ei chyfieithwyr. Ond gan fod cyfieithu fel proffesiwn yn ei hanfod yn croesi ffiniau o bob math, mae ceisio'i reoleiddio'n gamp sydd y tu hwnt i allu dyn – a menyw.

All y Gymdeithas, felly, ddim gwahardd y cyfieithydd carbwl na Chwmni Cyfieithiadau Crap rhag cynnig gwasanaeth cyfieithu. Rhaid iddi geisio denu cyfieithwyr i ymuno â hi drwy gynnis proses ymaelodi sydd mor deg â phosibl, sicrhau darparu cynifer ag o gall hi – o fewn ei hadnoddau – o wasanaethau proffesiynol a chynnig, yr un pryd, fodd i'r rhai sy'n dymuno cael gwasanaeth cyfieithu i droi at gyfieithwyr cymwys. Y ddwy wedd hynny, a'i hymdrechion i sicrhau statws a pharch at ei haelodau, yw hanfod gwaith y Gymdeithas. Ond yn wahanol i lawer o gymdeithasau eraill i gyfieithwyr, mae iddi nod pellach, sef hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd.

I gyrraedd y nod, un o'r pethau cyntaf roedd rhaid eu gwneud oedd llunio cyfeirlyfr o'r aelodau, un a nodai lefel eu haelodaeth wrth gyfieithu i'r Gymraeg neu i'r Saesneg, neu'r ddwy, ynghyd â'u cymwysterau academiaidd a phroffesiynol, eu haelodaeth o gymdeithasau cyfieithu eraill, a manylion hanfodol fel eu cyfeiriadau, eu rhifau ffôn, eu rhifau ffacs (oes unrhyw un yn cofio am y peiriant ffacs?) ac, yn ddiweddarach, eu cyfeiriadau e-bost.

Cam cyntaf oedd hynny wrth geisio marchnata'r Gymdeithas, nid yn unig i'w darpar aelodau ond hefyd i'r sawl a ddymunai gael gwasanaeth cyfieithwyr cymwys. Bu staff ac aelodau'r Gymdeithas,

felly, yn bresennol mewn ffeiriau gyrfaoedd, yn cyfrannu i drafodaethau ar y radio a'r teledu ac yn pledio achos y Gymdeithas a chyfieithwyr mewn lluo o fannau eraill.

Erbyn hyn, wrth gwrs, caffaeliad pwysicaf y Gymdeithas – heblaw am ei haelodau a'i staff, wrth gwrs – yw'n gwefan ni, a honno'n wefan sydd wedi'i hailwampio'n ddiweddar er mwyn i'n haelodau allu cynnwys, yn eu cofnod, unrhyw fanylion pellach y maen nhw'n dymuno'u cyflwyno i ddenu sylw darpar gwsmeriaid. Mae'n deg dweud i ni lwyddo'n arbennig: erbyn hyn, mae gennym ni bron i 350 o aelodau unigol ar hyd a lled y byd, ac o'r rheiny mae bron i 200 yn Aelodau Cyflawn, dros 130 yn Aelodau Sylfaenol a 70 yn Aelodau Cyfieithu ar y Pryd.

Am ein bod ni, fel yr unig gymdeithas broffesiynol yn y byd sy'n canolbwyntio ar faes cyfieithu Cymraeg-Saesneg, yn teimlo bod angen cyfrannu i drafodaethau ac astudiaethau academaidd ynghylch cyfieithu, aethom ati hefyd, er enghraifft, i noddi gradd MRes Dawn Wooldridge ar Wella Cysill, ac yna ddoethuriaeth Dawn ar broffilio gwallau, a chyn hynny i ni noddi doethuriaeth Judith Kaufmann ar Gymdeithaseg Cyfieithu. Mae'r tri thraethawd i'w gweld ar wefan y Gymdeithas ond mae'n deg dweud, efallai, fod traethawd difyr Judith o ddiddordeb ehangach am iddo fod yn ffrwyth prosiect HWB lle cafwyd cyllid gan Gist Gwynedd i sicrhau bod modd i gyrff ddefnyddio cyfieithwyr ar-y-pryd yn eu cyfarfodydd yn eitha rhad. Astudiodd Judith ymateb amrywiol y gwahanol garfannau, sef y di-Gymraeg, y siaradwyr Cymraeg a'r cyfieithwyr eu hunain, i'r ddarpariaeth honno. Y trueni yw i'r cyllid ddod i ben ac nad yw'r cynllun wedi'i ehangu ledled Cymru.

Dros y blynyddoedd, cafodd y Gymdeithas sawl cais i roi cyflwyniad i rai o bwylgorau'r Cynulliad. Bu'r rheiny'n brofiadau diddorol, yn enwedig adeg ein cyflwyniad cyntaf a ninnau'n gorfod wynebu'r drefn od – ond dealladwy, efallai – lle byddai pob aelod yn ei dro o bwylgor y Cynulliad yn gofyn cwestiwn a ninnau'n gorfod aros tan y diwedd i'w hateb nhw i gyd. Mae'n siŵr bod hynny'n datrys sawl problem o ran cael aelodau hirwyntog i dewi, ac i rwystro dadleuon rhag codi cyn i bawb ar y bwylgor ofyn ei gwestiwn, ond tipyn o dreth ar gof dyn oedd cofio pob cwestiwn a sicrhau bod pob un o'n cynrychiolwyr yn cael cyfle i'w hateb yn y drefn gywir.

Cyfraniad arall a wnaethon ni oedd helpu gwahanol gyrff i benodi cyfieithwyr, gan gynnwys Hedley a minnau yn nyddiau cynnar y Cynulliad, yn enwedig os oedden nhw heb gyflogi cyfieithwyr o'r blaen. Gallem gynnig pecyn o ddeunyddiau prawf a'u helpu wrth gloriannu (neu dafoli neu arfarnu neu werthuso – cewch chi ddewis eich hoff ferf) yr ymgeiswyr. Cystal cyfaddef nad oedd y corff penodi bob amser yn gwrandu, ond gobeithio na wnaethon nhw ddim difaru gormod am iddyn nhw benodi

cyfieithydd neu gyfieithwyr ar sail rhyw feini prawf a oedd yn eu barn nhw'n bwysicach na'r gallu a'r ddawn i gyfieithu.

Un cyflwyniad annisgwyl y cawsom ni gais i'w wneud oedd hwnnw i gynhadledd flynyddol yr Institute of Translation and Interpreting (yr ITI) yng Nghaerdydd yn 2005. Cynulleidfa go wahanol i swyddogion Bwrdd yr Iaith neu un o Bwyllgorau'r Cynulliad. Roedd gofyn cyflwyno tipyn o hanes y Gymraeg a datblygiad y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru yn gryno a hefyd yn ddifyr gobeithio. Rhoes sawl un ohonon ni, gan gynnwys John Roberts a Mair Parry-Jones, gyflwyniad go effeithiol (rwy'n meddwl) - mor effeithiol nes i'r ITI benderfynu cynnal eu cynhadledd flynyddol yng Nghaerdydd unwaith eto yn 2017, dim ond yr eildro i'r ITI gynnal eu cynhadledd flynyddol yn yr un lle am yr ail waith, a dim ond deuddeg mlynedd ers y tro cyntaf! Bydd yr ITI'n trafod rhaglen y gynhadledd gyda'r Gymdeithas.

Ysfa fawr llywodraeth Margaret Thatcher oedd preifateiddio cynifer o wasanaethau cyhoeddus ag y gallen nhw, ac eironi'r sefyllfa honno oedd i amryw byd o gyfieithwyr a oedd wedi magu profiad o gyfieithu yn y sector cyhoeddus fwrw ati, serch eu casineb at breifateiddio, i'w preifateiddio'u hunain! Roedd byd newydd yn ymagor o'u blaen, cyrff newydd yn cael eu creu a'r rheiny'n chwilio am gyfieithwyr heb fynnu o reidrwydd eu bod yn cyflogi eu rhai eu hunain. Roedd cyfrifiaduron yn lledu fel tân gwyllt ac yn fodd i gyfieithwyr weithio o'u cartrefi neu o'u swyddfeydd eu hunain. Yn gwbl groes i'r disgwyl, felly, dyma griw – go wrth-Geidwadol, am wn i – yn ei mentro hi i fyd y sector preifat a sefydlu busnes.

I ateb y galw a gododd yn sgil hynny, aeth y Gymdeithas ati i drefnu gweithdai ar sefydlu a rhedeg busnes dan arweiniad ein cyfaill Cynan Jones, a hoffwn ddiolch yma i Cynan am ei gyfraniad i'r Gymdeithas dros y blynyddoedd, nid yn unig wrth redeg gweithdai ond fel ymgynghorydd ariannol i ni.

Cam pellach yn sgil sefydlu busnesau cyfieithu oedd annog aelodau'r Gymdeithas i dalu am yswiriant indemniad proffesiynol rhag i neb geisio iawndal gan ein haelodau am ryw gamwedd nad oedd, o raid, yn codi o'u gweithredoedd uniongyrchol nhw.

Erbyn 2007, roedd Megan wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn Brif Weithredwr. Cawsom ginio yn Aberystwyth i ffarwelio â hi ac i ddiolch o galon iddi am ei holl ymdrechion dros y blynyddoedd

ffurfiannol hollbwysig. Drwy lwc, chollon ni mo'i gwasanaeth hi'n llwyr am ei bod hi'n dal yn aelod o'n panel marcio.

Wrth fwrw ati i benodi Prif Weithredwr i'r Gymdeithas, roedd llu o gwestiynau'n cyniwair ym mhen dyn. Allai'r un o'r ymgeiswyr ddod yn agos at lenwi sgidiau Megan? Fyddai cydweithio â'r Prif Weithredwr newydd yn gymaint o hwyl ac o bleser â chynt?

Fu dim rhaid i ni boeni, na throi a throsi. Atom o'i swydd yn Cyfle daeth Geraint Wyn Parry, gŵr llawn hwyl ond o ddifri ynglŷn â'i waith. Ac mae'r Gymdeithas wedi mynd o nerth i nerth o dan ei arweiniad doeth a chraff. Am ei fod e'n dal yn brif weithredwr ac yn debyg iawn o chwerthin yn uchel a'm heclo os gwna i ganmol gormod arno, ddweda i ddim fawr mwy na bod y blynyddoedd o gydweithio ag ef wedi bod yn bleser mawr – fel yr oedd cydweithio â Megan – a'n bod ni wedi cael llawer iawn o hwyl wrth wneud hynny.

Ymhlith y datblygiadau yn hanes y Gymdeithas yn ystod cyfnod Geraint mae:

Adolygu ac ailwampio'r drefn arholi, a phenodi prif arholwr a 2 ddirprwy ar gyfer yr arholiadau testun ac 1 dirprwy CAP

Creu a phenodi i swydd Rheolwr Datblygu Proffesiynol yn 2009 – datblygiad a arweiniodd at gynyddu llawer ar nifer ac amllder ein gweithdai – datblygu'r e-weithdy cyfieithu, a chreu cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus

Llunio Cod Ymddygiad Proffesiynol, y drefn gwyno gysylltiedig, a gwasanaeth asesu ansawdd cyfieithiad

Sefydlu Diwrnod i'r Aelodau

Annog a chefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth iddyn nhw benodi darlithydd Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, a llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn 2014

Annog a chefnogi Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i sefydlu Tystysgrif ôl-raddedig CAP yn 2012

Parhau i feithrin y berthynas gyda Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi gan arwain at gryfhau'r drefn CAP yn y llysoedd a statws proffesiynol cyfieithwyr ar y pryd. CAP yn y Llysoedd yw'r Maes Arbenigedd Proffesiynol cyntaf i'r Gymdeithas ei gydnabod

Datblygu perthynas y Gymdeithas â chymdeithasau a chyrff cyfieithu eraill ym Mhrydain a thu hwnt, a manteisio ar ein haelodaeth o FIT, y gymdeithas ryngwladol o gymdeithasau cyfieithu

Ar y cyd â'r Urdd, creu cystadleuaeth cyfieithu i'r rhai o bedair ar bymtheg i bump ar hugain oed yn Eisteddfod yr Urdd

Heb sôn am gael gwared ar ddau Gadeirydd!

Fe soniais gynnau am ein cydweithio hapus a phlesurus â'n dau Brif Weithredwr, ond mae'n deg i mi hefyd gyfeirio at y cydweithio â chyfarwyddwyr cwmni'r Gymdeithas. Fe fuon ni'n gweithio ar hyd y blynyddoedd yn griw bach cytûn. Dau is-gadeirydd fu drwy gydol y rhan fwyaf o'm hamser i fel cadeirydd, sef Steve Eaves a Fiona Gannon, a hoffwn ddiolch yn arbennig iddyn nhw, ac i Ann Corkett fel Trysorydd, am eu cyfraniad. Fe gawson ni gyfnod go anodd ar un adeg pan oedd dyfodol ariannol y Gymdeithas yn y fantol, ond roedd Bwrdd y Cyfarwyddwyr bob amser yn bendant eu barn ac yn gadarn eu penderfyniad, a braf oedd darllen sylwadau ambell un wrth ymddiswyddo pan ddywedodd iddo neu iddi fwynhau'r gwmnïaeth yn fawr iawn. A rhaid dweud i ni lwyddo, yn wahanol i lu o gyrff tebyg, i osgoi unrhyw rwyg ymhlith yr aelodau a'r cyfarwyddwyr ar hyd y blynyddoedd. Mae'r diolch am hynny'n ddyledus i Megan, ac yna Geraint, ac i Nia a'i chydweithwyr.

A ninnau'n broffesiwn cymharol ifanc, tipyn o ddychryn oedd colli aelodau blaenllaw a gweithgar fel Moc Rogers a Wil Petherbridge – a Dewi Morris Jones yn fwy diweddar – ac mae'n deg i ni gofio'n ddiolchgar am gyfraniad pob un ohonyn nhw.

Beth am y dyfodol, i faes cyfieithu ac i'r Gymdeithas? Mae'n sicr bod ein cenhedlaeth ni o gyfieithwyr, fel gweithwyr mewn llawer maes arall, wedi gweld llawer iawn mwy o newid na'r un genhedlaeth o'n blaen. Gwelwyd newidiadau gwleidyddol mawr o ran datganoli ac o ran statws y Gymraeg. Daeth y cyfrifiadur a'r we i chwyldroi'n ffyrdd o feddwl a gweithio. Datblygodd maes technoleg gwybodaeth gofion cyfieithu i'n helpu ni i osgoi gwneud gwaith diflas dro ar ôl tro, ac mae gennym ni Cysill a ChysGair, Byd Term Cymru a welsh-termau-cymraeg - datblygiadau a oedd y tu hwnt i ddychymyg cyfieithwyr yr oes o'r blaen (hynny yw, fi a'm tebyg).

Datblygodd y cyfryngau cymdeithasol nes bod y ffôn symudol yn rheoli bywyd pawb bron. Mae rhaglenni cyfieithu cyfrifiadurol yn rhwym o wella er mor anodd yw hi i beiriant ddeall ac ymglywed â theithi iaith yn ei holl ogoniant. Rwy' eisoes wedi crybwyll bod hynny'n codi ambell broblem i ni fel arholwyr a marcwyr. Mae dyfodiad Skype a Facetime yn golygu bod cysylltu wyneb yn wyneb yn haws ac yn rhatach nag erioed o'r blaen ac mae rhai rhaglenni cyfieithu cyfrifiadurol yn sôn am allu cyfieithu ar-y-pryd mewn sgysiau o'r fath. Gall y rhain i gyd ddylanwadu ar y cyfeiriad yr aiff ein Cymdeithas iddi maes o law.

Datblygiad arall, y tu hwnt i faes technoleg gwybodaeth y tro hwn, yw bod cwsmeriaid mawr wedi dechrau cynnig tendrau cyfieithu. Rhaid cyfaddef fod trefn o'r fath yn peri tipyn o anniddigrwydd i mi am fod gormod o sawr 'ras i'r gwaelod' a 'Pris popeth ond gwerth dim byd' ar y peth.

I mi, mae sawl problem ynghylch tendro. Y naill yw mai cam â chyfieithwyr iaith leiafrifol yw gofyn iddyn nhw wastraffu eu hamser ar lunio cyfieithiadau na chân nhw mo'u defnyddio (heb sôn am wneud yr holl waith papur sydd ynghlwm wrth lunio tendr) a'r llall yw bod y canlyniadau'n gallu creu drwgdeimlad rhwng y cwsmer a'r cyfieithwyr sy'n cyflwyno tendrau aflwyddiannus. Fe allwch chi ddadlau mai dyna drefn arferol byd busnes a bod pawb yn hoffi bargaen, ond go brin ei bod yn ffordd arbennig o effeithiol o weithio. Problem arall yw nad oes digon o fagu perthynas rhwng cwsmer a chyfieithydd. Mae'n arwyddocaol, felly, mai teitl un o sesiynau'r Chartered Institute of Linguists yn y Language Live Show yn Llundain ym mis Hydref yw 'Top Tips to Build Trust in a Translator-Client Relationship'.

Beth am y bylchau? Mae rhai meysydd nad yw'r Gymdeithas wedi'u cyrraedd, rhai am eu bod mor fach ac arbenigol - isdeitlo, er enghraifft - ac eraill yn feysydd sy'n perthyn i broffesiynau eraill sy'n credu eu bod 'uwchlaw' chyfieithu. Un o'r rheiny yw newyddiaduraeth lle mae swmp o waith cyfieithu'n cael ei wneud yn enw newyddiadura, nid cyfieithu. Ble'n union y mae tynnu'r llinell rhwng y ddau weithgarwch, mae'n anodd dweud, ond mewn cymdeithas ddwyieithog fel sydd gennym ni yng Nghymru heddiw, a'n hadnoddau o ran arian a phobl yn brin, mae'n amlwg bod gan ein proffesiwn ni lawer i'w ddysgu i aelodau o broffesiynau eraill sy'n gweithredu yn y ddwy iaith. Trueni, efallai, nad oes mwy o gydweithio wedi bod rhwng ein maes ni a'r meysydd eraill hynny. Amser a ddengys a wnaiff byd technoleg gyfrannu'n helaeth at ddatrys y sefyllfa honno.

Wrth i'r Gymdeithas gyrraedd ei deugain oed, mae un peth yn sicr. Mae hi – fel Barddas, sydd hefyd yn dathlu'r deugain eleni – wedi goroesi! Mae ganddi arweiniad cadarn yn nwylo Geraint a Nia. Mae to newydd o gyfarwyddwyr, a Chadeirydd newydd, wedi dod i'w lle dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac rwy'n ffyddiog y byddan nhw'n glynu'r un mor gadarn â'u rhagflaenwyr wrth nod a dyheadau'r Gymdeithas. Maen nhw'n wynebu her fawr – does dim dwywaith am hynny, yn enwedig yn sgil cyflwyno Safonau gan y Comisiynydd Iaith ac yna gan y Llywodraeth – ond mae lles y diwydiant a'r proffesiwn cyfieithu yn ddiogel yn eu dwylo nhw. Gobeithio na fyddan nhw'n treulio gormod o'u hamser yn troi a throsi!

Yn sicr bydd pawb sydd wedi cyfrannu at llwyddiant yn Gymdeithas dros y deugain mlynedd diwethaf yn dymuno pob llwyddiant iddyn nhw.

Diolch yn fawr.

Berwyn Prys Jones